Cyngor Dinas
Bangor
City Council

# Pwyllgor Adnoddau Dynol

# Cylch Gorchwyl

DYDDIAD CYMERADWYO: 5 Mehefin 2023
DYDDIAD ADOLYGU: Mehefin 2024
RHIF COFNOD:

## 1. PWRPAS

1.1. Pwrpas y pwyllgor yw hwyluso'r gwaith o gyflawni cyfrifoldebau'r cyngor fel cyflogwr a gwneud argymhellion ar faterion o'r fath i'r cyngor.

## 2. AELODAETH

2.1. Bydd y pwyllgor yn cynnwys chwe chynghorydd, gan gynnwys y Maer, a fydd yn Cadeirio’r pwyllgor, y Dirprwy Faer, Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Asedau a dau Gynghorydd ychwanegol. Dylid sicrhau nad yw mwy na hanner y pwyllgor yn cynrychioli un blaid wleidyddol. Yn y sefyllfa hon, bydd y Cyngor yn enwebu Cynghorydd ychwanegol i gymryd lle Cynghorydd o’r blaid honno.

## 3. CYFARFODYDD

3.1. Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen ond o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu strwythur ac amodau staff.

## 4. GWASANAETHAU PWYLLGOR

4.1. Gwasanaethir y pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Dinesig neu ei Ddirprwy.

## 5. PLEIDLEISIO

5.1. Bydd pleidleisio yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, sy'n golygu y bydd gan bob aelod un bleidlais. Yn ogystal, mae gan y cadeirydd ail bleidlais ‘fwrw’ i'w defnyddio pan fydd pleidlais gyfartal.

5.2. Gall unrhyw aelod o'r pwyllgor ofyn am bleidlais a enwir.

## 6. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU – MATERION STAFFIO – CYFFREDINOL

Mae’r Cyngor yn dirprwyo cyfrifoldeb i’r Pwyllgor Adnoddau Dynol dros y canlynol:

6.1. Sefydlu a goruchwylio'r strwythur staffio a'i gadw dan adolygiad.

6.2. Monitro ac adolygu polisïau ar gyfer staff.

6.3. Sicrhau bod graddfeydd cyflog blynyddol ac amodau ar gyfer yr holl staff yn cael eu cynnal yn unol â pholisïau Cyngor y Ddinas a graddfeydd Cenedlaethol NALC.

6.4. Goruchwylio’r broses recriwtio staff:

6.4.1. Gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ynghylch penodiad a thelerau’r Cyfarwyddwr Dinesig, i Gyngor y Ddinas eu cymeradwyo.

6.4.2. Bydd staff eraill yn cael eu cyfweld a'u penodi gan y Cyfarwyddwr Dinesig, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor.

6.5. Trefnu i gontractau cyflogaeth newydd gael eu gweithredu a newidiadau i gontractau, yn ôl yr angen.

6.6. Parhau i adolygu amodau gwaith ac iechyd a diogelwch staff, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau i ddeddfwriaeth cyflogaeth ac iechyd a diogelwch.

6.7. Ystyried unrhyw faterion iechyd a diogelwch neu les staff a ddygwyd i sylw'r pwyllgor.

6.8. Sefydlu ac adolygu rheoli perfformiad gan gynnwys arfarniadau:

6.8.1. Ymgymerir ag arfarniad y Cyfarwyddwr Dinesig gan y Maer neu'r Dirprwy Faer a'i adrodd i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol.

6.8.2. Bydd arfarniadau staff yn cael eu cynnal gan y Cyfarwyddwr Dinesig a bydd yn adrodd i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol.

6.8.3. Gall y Maer dynnu ar gefnogaeth cynghorydd arall neu gynghorydd annibynnol, gyda'r sgiliau perthnasol, ym mhob mater sy'n ymwneud â'r Cyfarwyddwr Dinesig.

6.9. Ceisiadau goramser/TOIL/Gwyliau.

6.9.1. Bydd ceisiadau'r Cyfarwyddwr Dinesig am oramser, TOIL a gwyliau yn cael eu hadrodd i'r Maer neu eu Dirprwy.

6.9.2. Bydd goramser staff, TOIL a cheisiadau gwyliau yn cael eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Dinesig.

**7. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU – MATERION STAFFIO – CWYNO, DISGYBLU A DISWYDDO.**

Mae'r Cyngor hefyd yn dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol:

7.1. I weithredu a goruchwylio gweithdrefnau cwyno neu ddisgyblu'r Cyngor yn ôl yr angen.

7.2. Cael cyngor arbenigol allanol, gan er enghraifft (ond heb fod yn gyfyngedig i), Un Llais Cymru, cynghorwyr cyfreithiol y Cyngor, NALC neu SLCC, os oes angen.

7.3. Lle bo'n briodol cyfeirio canlyniad unrhyw gŵyn/mater disgyblu, ynghyd ag argymhellion i'r Cyngor llawn.

7.4. Yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor Llawn, goruchwylio unrhyw broses sy'n arwain at ddisgyblu neu ddiswyddo staff (gan gynnwys dileu swyddi).

7.5. Gweithredu unrhyw benderfyniadau/gohebiaeth mewn perthynas â chwyn a gadarnhawyd.